



*SIWAN A CHERDDI  
ERAILL  
GAN SAUNDERS  
LEWIS*

---

Dr Hannah Sams  
Adran y Gymraeg, Prifysgol  
Abertawe  
[h.l.sams@abertawe.ac.uk](mailto:h.l.sams@abertawe.ac.uk)



TRAFOD:  
BETH YW'R  
HERIAU I CHI  
WRTH  
ASTUDIO'R  
DDRAMA?

---





# YR HERIAU

Iaith y ddrama:

1. Yr areithiau
2. Arddull farddonol y ddrama
3. Cyd-destun hanesyddol y ddrama


# NOD Y SESIWN

Craffu'n fanwl ar ddwy arraith bwysig yn y ddrama sef:

- Araith Siwan
- Araith Llywelyn

Ond cyn hynny:

- Pam ysgrifennu'r ddrama?
- Beth sy'n anodd am iaith y ddrama?
- A yw'r iaith farddonol yn ormod o rwystr?



# PAM YSGRIFENNU'R DDRAMMA?

1947



Mewn erthygl yn *Y Faner* adeg priodas y frenhines Elisabeth (Tachwedd 1947) ysgrifennodd Saunders Lewis erthygl bwysig mewn ymateb i'r briodas gan dynnu sylw at dywysogesau a phriodasau'r gorffennol.


Defnyddiodd Saunders Lewis y briodas frenhinol fel esgus i droi'r sylw yn ôl at hanes Crymu.

Ceisiodd S.L atgoffa'r Cymry am hanes disglair priodasau brenhinol eu gwlad hefyd gan ofyn cwestiwn mawr:

*'Ah, dywysogesau a breninesau Crymu, pwy o'ch gwlad chwi sy'n cofio amdanoch....? Yn iach i chwi, anwyliaid ein brenhinoedd, a boed i chwi oleuni gwastadol.'*

## SIWAN

Saith mlynedd wedi'r erthygl yn *Y Faner* (1947) darlledwyd y ddrama *SIWAN* ar ddydd Gwyl Dewi 1954.



TRAFOD:  
SUT Y BYDDECH CHI'N  
DISGRIFIO IAITH Y  
DDRAMA?

PAM YN EICH BARN CHI  
Y MAE SAUNDERS LEWIS  
YN DEFNYDDIO IAITH  
O'R FATH?

---





# DRAMA FYDRYDDOL: PAM?

Roedd Saunders Lewis yn un a oedd yn hoffi  
rhoi pwys mawr ar draddodiad ac yn ôl R.  
Gerallt Jones:

‘o bob barddoniaeth barddoniaeth  
ddramatig oedd y ffurf uchaf a’r fwyaf  
anrhydeddus gan y Byd Clasurol.’

Er mwyn defnyddio iaith o'r fath roedd yn rhaid sicrhau dau beth sef:

1. Bod y cymeriadau'n gymeriadau o urddas (brenhinoedd, arwyr, arweinyddion)
2. Dangos bodau dynol mewn gwewyr enaid, yn dioddef neu yn gweithredu mewn creisis.

Trwy gyfuno'r ddau beth yma mae'r iaith farddonol yn gwneud synnwyr ar ddwy lefel:

1. Mae'n adlewyrchu statws ac urddas y cymeriadau
2. Mae'r geiriau prydferth sydd wedi eu dewis yn ofalus yn llwyddo i fynegi teimladau dwys y cymeriadau yma sydd mewn creisis.

Ni fyddai modd mynegi hyn mewn iaith bob dydd yn ôl R. Gerallt Jones:

'barddoniaeth oedd iaith angerdd ac iaith dyfnder personoliaeth.'

R. Gerallt Jones, Siwan: Astudiaaeth gan R. Gerallt Jones, t. 6:

‘Cymerwyd yn ganiataol, ganrifoedd yn ôl mai barddoniaeth oedd yr unig gyfrwng posibl i ddrama. Yn theatrau agored Groeg yn nramâu Rhufain, yr unig bethau y gellid eu mynegi mewn rhyddiaith oedd y pethau hynny nad oeddynt yn gwbl berthnasol i thema ganolog y gwaith, sef sgwrs wamal werin israddol, neu ddychan, neu adroddiad ffeithiol, ail-lawr o ddigwyddiad ymhell i ffwrdd.

Barddoniaeth, yn yr un modd, oedd y cyfrwng derbyniol i ddrama yn Lloegr yn oes Elizabeth y cyntaf, ac yn Ffrainc yn yr ail ganrif ar bymtheg a’r ddeunawfed ganrif. Yr oedd y rheswm yn syml. Iaith yr hyn oedd wrthrychol, ffeithiol, draethodol, fel croniclau hanesyddol, pregethau diwinyddol, datganiadau cyfreithiol, oedd rhyddiaith, barddoniaeth oedd iaith yr enaid, iaith angerdd teimladol ysbryd dyn, iaith dyfnder ei bersonoliaeth.’



# CEFNDIR Y DDRAMMA

---

# CEFNDIR Y DDRAMA

R. Gerallt Jones:

‘Mewn gair, ni ellir astudio Siwan heb  
astudio’r cefndir hanesyddol sy’n rhoi ystyr a  
chyd-destun iddi.’

# A.D. CARR

‘Drama am bobl ydyw. . . yn hytrach na drama am hanes Gwynedd yn y drydedd ganrif ar ddeg, ond mae gwybod am y cefndir hanesyddol yn hanfodol i’n dealltwriaeth o’r ddrama.’

A yw’r cefndir yn hanfodol yn eich barn chi?





# PWY YW PWY?

Llywelyn Fawr (Llywelyn ap Iorwerth) 57 oed -  
rheoli lot o diroedd gogledd Cymru

Siwan: gwraig Llywelyn (merch anghyfreithlon  
brenin Lloger) 35 oed

Gwilym Brewys: 25 oed

Alis: llawforwyn i Siwan, 20 oed.

# GWLEIDYDDIAETH NID CARIAD

Trefnwyd y briodas rhwng Siwan a Llywelyn  
fel cytundeb gwleidyddol.

Roedd Siwan yn 14 pan symudodd hi i fyw  
at Llewelyn

Cysylltiadau â Lloegr ac â Ffrainc

Ychydig bach fel *Game of Thrones*!



# TEITHIO NÔL MEWN AMSER

Un o'r pethau anoddaf am y  
ddrama yw'r ffaith bod yn rhaid i  
ni deithio nôl mewn amser.

1230 – 1231

**OND - A yw hyn yn ein stopio  
rhag**

**uniaethu â'r cymeriadau?**



# TRASIEDI'R DDRAMA

Siwan yn cael perthynas gyda Gwilym  
Brewys

Llywelyn yn torri ei galon ac yn lladd  
Gwilym Brewys

Carcharu Siwan am flwyddyn

Tresiedi'r ddrama? – caiff ei datgelu yn yr  
areithiau yn yr act olaf



# DADANSODDI ARAITH SIWAN

---

# Y DASG

Darllenwch y ddwy araith ac ymatebwch i'r cwestiynau isod:

1. Sut mae'r ddelwedd a gawn o Siwan/Llywelyn yn yr areithiau hyn yn wahanol i'r ddelwedd a gawn ar ddechrau'r ddrama?

2. Pa dechnegau iaith ac arddull y mae Saunders Lewis yn eu defnyddio yn y darn er mwyn pwysleisio'r newid hyn?

e.e. Sylwch ar ei ddefnydd o ddelweddau yn yr areithiau hyn. Beth yw effaith y delweddau hyn a sut mae hyn yn gwrthgyferbynnu â statws y cymeriadau?

4. Sut mae Saunders Lewis yn dangos cymeriad yn ei ddigwydd?

5. Beth sy'n drist am yr areithiau hyn?

6. Sut mae Saunders Lewis yn pwysleisio ochr ddynol Siwan a Llywelyn er gwaethaf eu statws?

**Cofiwch gyfeirio at ddyfyniadau o'r areithiau i gefnogi eich barn.**

# SIWAN AR DDECHRAU'R DDRAMA

ALIS: 'Fuoch chi ddim erioed dan y fedwen?

SIWAN: (yn sydyn a chwerw )

Merch i frenin oeddwn i. Yn bymtheg oed

Mam i dywysog a llysgennad Aberffraw.

Rhoddais fy nghroth i wleidyddiaeth fel  
pob

merch brenin.

(tud.37)



SIWAN: ... Cefais gyda'm gwaed

Egni nwydwyllt fy nhad. Rhag chwalu  
'mywyd

Mi ymdeflais i waith gŵr ac i waith fy  
ngŵr.

(tud.40)



# CRYNHOI

---

# TRAFOD

Er bod Siwan a Llywelyn yn gymeriadau hanesyddol ac yn siarad mewn modd barddonol a ydych chi yn gallu uniaethu â nhw?

Pam?



TRAFOD:  
A YW SAUNDERS  
LEWIS YN LLWYDDO  
'I ROI CNAWD AR  
ESGYRN SYCHION  
HANES'? OS FELLY,  
SUT?

---



# TROI CYMERIAD HANESYDDOL YN FYW

Er mai hanes gwrthdaro rhwng uchelwyr ydyw, cawn fwy na hynny. Gwelwn gymeriadau dynol, gŵr a gwraig yn dinoethi eu cymeriadau o'n blaenau ar y llwyfan.

Ydy, mae hi'n heriol ac mae angen deall *ychydig* am gefndir y cymeriadau ond yn y bôn cymeriadau fel chi a fi ydyn nhw.

**Act 1** – Siwan y  
Gwleidydd

**Act 2** – Siwan yng nghanol  
creisis mawr ei bywyd

**Act 3** - Wedi dod i  
adnabod cymeriad Siwan  
a Llywelyn sylweddoli mai  
pobl fel chi a fi ydyn nhw  
er gwaethaf eu statws.

# DATBLYGIAD CYMERIAD SIWAN

# YDYCH CHI'N CYTUNO Â R. GERALLT JONES?

‘Mewn gair, ni ellir astudio Siwan heb  
astudio’r cefndir hanesyddol sy’n rhoi ystyr a  
chyd-destun iddi.’

# BARN HUW RICHARDS

‘Cymeriad ag iddi **nifer o elfennau amrywiol** yw Siwan, a dyna pam ei bod yn gredadwy ac yn apelio atom fel cynulleidfa’






# YDY SAUNDERS LEWIS YN LLWYDDO?

R. Gerallt Jones:

‘Swyddogaeth drama yw dangos i gynulleidfa fodau dynol mewn creisis, yn wynebu problem, a’u teimladau, a’u problemau yn ymgorffori mewn iaith urddasol a chredadwy gan wneud i’r gynulleidfa rannu poen â hwynt a chydymdeimlo â’u hemosiynau, a thrwy hynny ddyfod i ddeall eu hunain yn well.’

# DIOLCH!

Cofiwch gysylltu os ydych chi am ofyn unrhyw gwestiynau:



[h.l.sams@abertawe.ac.uk](mailto:h.l.sams@abertawe.ac.uk)



cymraegabertawe



@CymraegAbertawe